WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Darlun Cymharol o Wasanaethau Orthopedeg

# Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

**Dyddiad:** Mehefin 2015

**Cyfeirnod:** 100A2015

Mae'r adroddiad hwn wedi ei baratoi ar sail gwaith gafodd ei wneud dan y Government of Wales Act 1998 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Roedd tîm Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Anne Beegan, Sian Davies, Andrew Doughton, Kate Febry, Delyth Lewis a Stephen Lisle o dan gyfarwyddyd David Thomas.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hithau gan gynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddo'r pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol, ynghyd ag archwilwyr penodedig, hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waitih gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Am ragor o wybodaeth ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol yn y cyfeiriad uchod, ffoniwch 029 2032 0500, e-bostiwch: post@archwilio.cymru, neu gweler y wefan www.archwilio.cymru.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2015

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teil y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

Os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol cysylltwch â ni gan ddefnyddio'r manylion canlynol: Ffôn 029 2032 0500, e-bost post@archwilio.cymru.

# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | Adroddiad cryno | 4 |
| 1 | Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | 13 |
| | Darpariaeth gofal sylfaenol | 13 |
| | Atgyfeiriadau gan feddygon teulu | 16 |
| | Gwasanaethau asesu a thriniaeth cyhyrysgerbydol cymunedol | 18 |
| 2 | Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | 21 |
| | Gwasanaethau i gleifion allanol | 21 |
| | Gwasanaethau ffisiotherapi | 26 |
| | Gwasanaethau radioleg | 28 |
| 3 | Gwasanaethau i gleifion preswyl | 31 |
| | Aros a pharatoi i fynd i'r ysbyty | 31 |
| | Derbyniadau | 35 |
| | Aros yn yr ysbyty | 36 |
| | Rhyddhau cleifion | 37 |
| 4 | Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | 40 |
| | Trefniadau dilynol | 40 |
| | Canlyniadau a phrofiad cleifion | 41 |
| | Atodiadau | |
| | Ffynonellau data | 46 |

# Adroddiad cryno

1 Yn 2013 a 2014, cynhaliodd yr Archwilydd Cyffredinol adolygiad gorfodol lleol o wasanaethau orthopedeg ledled Cymru. Nod yr adolygiad oedd ateb y cwestiwn canlynol: A yw gwasanaethau orthopedeg yn effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus ac a ydynt yn cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffordd gynaliadwy? Mae canfyddiadau'r gwaith hwnnw wedi'u cyflwyno mewn adroddiad cenedlaethol, **Adolygiad o Wasanaethau Orthopedeg**.

2 Fel rhan o'r fethodoleg a oedd yn sylfaen i'r adolygiad, aethom ati i gasglu amrywiaeth o ddata er mwyn deall perfformiad gwasanaethau orthopedeg presennol ym mhob bwrdd iechyd. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno ein harolwg o wasanaethau orthopedeg ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys (y Bwrdd Iechyd) ar sail y data hwnnw, ac yn nodi sut mae'r gwasanaeth yn cymharu â gweddill Cymru. Lle mae hynny'n berthnasol, mae hefyd yn adlewyrchu perfformiad y prif fyrddau iechyd darparu yng Nghymru lle gall cleifion o Bowys dderbyn triniaeth orthopedig ddewisol.

3 Rydym wedi seilio ein harolwg ar effeithlonrwydd, effeithiolrwydd a darbodusrwydd gwasanaethau orthopedeg a ddarperir gan y Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio llwybr y claf. Rydym wedi casglu'r data o ffynonellau amrywiol (gweler Atodiad 1), a'r data a ddefnyddir yw'r data mwyaf diweddar a oedd ar gael adeg cyflwyno'r adroddiad. Mae canfyddiadau'r dadansoddiad o'r data wedi'u cyflwyno ym mhrif ran yr adroddiad hwn, ond mae'r negeseuon lefel uchel wedi'u cyflwyno yn Arddangosyn 1. Mae Arddangosyn 2 yn asesiad cryno sy'n defnyddio statws goleuadau traffig i ddangos sut mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn cymharu â gweddill Cymru o safbwynt pob dangosydd, a sut mae'n cymharu â thargedau Llywodraeth Cymru, lle mae'r wybodaeth honno'n berthnasol.

Arddangosyn 1: Negeseuon lefel uchel

Er bod rhywfaint o le i well effeithlonrwydd, mae gwasanaethau orthopedeg sy'n cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd yn perfformio'n dda ar y cyfan ond mae gwahaniaethau yn y ddarpariaeth o'i wasanaethau orthopedeg a gomisiynwyd gan ei brif ddarparwyr byrddau iechyd Cymreig:

- Mae lefel gadarnhaol o fuddsoddi mewn gwasanaethau gofal sylfaenol, dewis da o wasanaethau yn y gymuned ar gael i feddygon teulu a chyfradd isel o atgyfeiriadau er bod lle i gryfhau'r Gwasanaeth Asesu a Thrin Cyhyrysgerbydol Clinigol (CMATS) i leihau atgyfeiriadau ymhellach eto.
- Ar y cyfan mae gwasanaethau cleifion allanol a ffisiotherapi yn bodloni'r galw, er bod amseroedd aros ar gyfer radioleg wedi bod yn broblematig, gallai cyfraddau canslo cleifion allanol gael eu gwella ac mae lle i ymestyn gwasanaethau ffisiotherapi i leoliadau gofal sylfaenol.
- Mae'r ddarpariaeth gofal cleifion mewnol gan y prif ddarparwyr gofal eilaidd yng Nghymru yn amrywio; fodd bynnag, mae llawdriniaethau sy'n cael eu gwneud yn y Bwrdd Iechyd yn effeithlon ar y cyfan er bod lle i wella'r defnydd o theatrau.
- Caiff cleifion wasanaeth dilynol er y gallant brofi canlyniadau gwahanol gan ddibynnu ble maen nhw'n derbyn gofal.

Arddangosyn 2: Asesiad cryno

| Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw'r Bwrdd Iechyd wedi buddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol?** | | |
| Mwy o fuddsoddi mewn darpariaeth gofal sylfaenol cyhyrysgerbydol | Mae gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol ar gyfer problemau cyhyrysgerbydol wedi cynyddu 34 y cant rhwng 2010 a 2013. | ● |
| Cyfanswm y gwariant ar ddarpariaeth gofal sylfaenol | Mae gwariant cyfartalog ar ofal sylfaenol fesul pen o'r boblogaeth (£15.50) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, a dyma'r ail uchaf yng Nghymru. | ● |
| Cyfran cyfanswm y gwariant cyhyrysgerbydol sy'n cael ei dyrannu i ofal sylfaenol | Cyfran cyfanswm y gwariant ar ofal sylfaenol yw'r uchaf yng Nghymru (17.1 y cant). | ● |
| Amrywiaeth y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu | Mae amrywiaeth y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael i feddygon teulu yn cymharu'n ffafriol gyda byrddau iechyd eraill. | ● |
| Derbyn ymyriadau amgen cyn llawdriniaeth | Mae'r graddau y mae cleifion yn derbyn ymyriadau amgen cyn llawdriniaeth yn isel. | ● |
| **A yw'r galw am wasanaethau gofal eilaidd yn cael ei reoli?** | | |
| Cyfradd atgyfeirio meddygon teulu | Y gyfradd atgyfeirio meddygon teulu fesul 100,000 o'r boblogaeth yw'r isaf yng Nghymru. | ● |
| Tuedd o ran atgyfeiriadau | Mae'r duedd o ran Atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn gymharol gyson, gyda rhai amrywiadau yn gysylltiedig â chyfnodau o dywydd gwael. | ● |

| Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw'r CMATS yn gweithredu'n effeithiol?** | | |
| CMATS ar waith | Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno CMATS ym mhob un o'r lleoliadau. |  |
| Trefniadau gweithredol CMATS | Nid yw CMATS yn cydymffurfio ag egwyddorion allweddol Llywodraeth Cymru gyda dim cyfranogiad meddygol, dim mynediad uniongyrchol i wasanaethau diagnosteg a dim ond yn gweithredu fel porth i bob atgyfeiriad meddyg teulu yn ardal y de. |  |
| Lefelau staffio CMATS | Mae lefel y staff fesul 1,000 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu yn well o gymharu â llawer o dimau eraill, er bod nifer y staff yn fach gan wneud y gwasanaeth yn agored i niwed. |  |
| Cleifion sy'n cael eu trin gan CMATS | Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu adrodd ar gyfran y cleifion sy'n cael eu trin gan CMATS. | - |
| Amseroedd aros ar gyfer asesu wyneb yn wyneb gan CMATS | Mae'r amser aros rhwng atgyfeirio ac asesu wyneb yn wyneb gan CMATS rhwng pythefnos a chwe wythnos, er bod amseroedd aros yn cael eu cynnwys yn yr amseroedd atgyfeirio i driniaeth, sy'n groes i ganllawiau Llywodraeth Cymru. |  |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw gwasanaethau i gleifion allanol yn effeithiol?** | | |
| Amseroedd aros am apwyntiadau cleifion allanol cyntaf | Mae canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru gyfan, gydag ychydig iawn o gleifion yn aros am fwy na 26 wythnos. | ● (green) |
| Sesiynau meddygon ymgynghorol i gleifion allanol | Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi unrhyw staff ymgynghorol orthopedeg yn uniongyrchol. | - |
| Clinigau cleifion allanol a ganslwyd | Cyfran y clinigau cleifion allanol a ganslwyd yw 15 y cant. Mae'r gyfradd yn amrywio ar draws safleoedd clinigau, gyda'r isaf tua naw y cant yn Ysbyty Aberhonddu. Nid oes unrhyw gymhariaeth ar gael. | ● (red) |
| Cymarebau apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd | Y gymhareb apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd (0.7) yw'r isaf yng Nghymru ac roedd ymhell o fewn targed Llywodraeth Cymru (1.9). | ● (green) |
| Cyfraddau cleifion na fynychodd apwyntiadau | Y cyfraddau'r cleifion na fynychodd apwyntiadau newydd (2.0) ac apwyntiadau cleifion allanol (3.8) yw'r isaf yng Nghymru. | ● (green) |
| Cleifion yn canslo apwyntiadau | Mae cyfradd y cleifion sy'n canslo apwyntiadau yn uchel, sef 12.5 y cant ar gyfer apwyntiadau newydd a 15.7 y cant ar gyfer apwyntiadau dilynol. | ● (red) |
| Cydgysylltu ymweliadau | Roedd 14 o bob 15 claf (93 y cant) yn teimlo bod y darparwr gofal eilaidd priodol wedi ceisio cydgysylltu'r ymweliadau amrywiol yr oedd angen iddynt eu gwneud. Dyma'r ymateb uchaf yng Nghymru. | ● (green) |

| Gwasanaethau i gleifion allanol a gwasanaethau diagnostig | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cost fesul ymweliad claf allanol | Y gost fesul presenoldeb claf allanol yw'r isaf ond un yng Nghymru, sef £89.86 am bob ymweliad claf allanol. | ● |
| **A yw gwasanaethau ffisiotherapi yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfer gwasanaethau ffisiotherapi | Mae canran y cleifion sy'n aros llai nag wyth wythnos yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan, ac ychydig iawn o gleifion, os o gwbl, sy'n aros mwy nag 14 wythnos. | ● |
| Lleoliadau amrywiol | Dim ond mewn ystod o safleoedd sylfaenol a chymunedol mae gwasanaethau ffisiotherapi'n cael eu darparu. | ● |
| Mynediad hwylus | Mae cleifion yn gallu eu hatgyfeirio eu hunain yn uniongyrchol i'r gwasanaeth ffisiotherapi. | ● |
| Argaeledd gwasanaethau | Mae gwasanaethau ffisiotherapi i gleifion allanol yn parhau i gael eu darparu ar ffurf gwasanaeth pum diwrnod traddodiadol gan amlaf. | ● |
| **A yw gwasanaethau radioleg yn gallu ateb y galw?** | | |
| Amseroedd aros ar gyfer profion radioleg o bob math | Mae amseroedd aros ar gyfer profion radioleg wedi bod yn gyson well na chyfartaledd Cymru gyfan, er y bu cyfnodau o oedi cynyddol ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon teulu. | ● |
| Cyfraddau atgyfeirio MRI | Gan nad oes gan y Bwrdd Iechyd ddarpariaeth MRI, nid ydym yn gallu deall i ba raddau mae meddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn gwneud cais am sganiau MRI. | - |
| Amseroedd aros am sganiau MRI | Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn darparu gwasanaethau MRI; fodd bynnag, mae amseroedd aros i drigolion Powys yn amrywio gan ddibynnu at ba ddarparwr gofal eilaidd y cânt eu hatgyfeirio. | ● |

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A oes tystiolaeth bod trefniadau’n ymwneud â thriniaethau llawfeddygol yn effeithiol?** | | |
| Trefniadau asesu cyn llawdriniaeth | Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaeth yn eu lle ar gyfer llawdriniaethau orthopedig sy’n cael eu gwneud ym Mhowys. |  |
| Cael asesiad cyn llawdriniaeth | Cafodd pob claf oedd yn cael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd asesiad cyn llawdriniaeth gan y darparwyr gofal eilaidd perthnasol. |  |
| Triniaethau sy’n cael effaith glinigol gyfyngedig | Mae cyfradd y triniaethau sy’n cael effaith glinigol gyfyngedig yn isel ym mhob ardal o’r Bwrdd Iechyd, a’r isaf ond un yng Nghymru. |  |
| Cyfraddau cleifion allanol Cymdeithas Llawdriniaeth Ddydd Prydain | Mae pob triniaeth a gyflawnir yn y Bwrdd Iechyd yn digwydd ar sail claf allanol. |  |
| Cyflwyno ‘ysgol y cymalau[1]’ | Mae’r Bwrdd Iechyd yn dibynnu ar ei ddarparwyr gofal eilaidd i ddarparu ‘ysgol y cymalau’. Mae argaeledd ‘ysgol y cymalau’ yn amrywio yn ôl darparwr gofal eilaidd. |  |
| Amseroedd aros am lawdriniaeth | Mae canran y cleifion sy’n aros mwy na 26 wythnos i gael eu derbyn i’r ysbyty yn is na chyfartaledd Cymru gyfan yn gyson. |  |

[1] Mae ysgolion y cymalau’n darparu sesiynau addysgol ar gyfer cleifion sy’n cael llawdriniaeth orthopedig, gan gynnwys cyfle i gleifion ymarfer ymarferion a thechnegau ffisiotherapi a fydd eu hangen arnynt ar ôl y llawdriniaeth.

| Gwasanaethau i gleifion preswyl | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw nifer y gwelyau'n cael ei ddefnyddio yn effeithiol?** | | |
| Derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth | Mae cleifion yn cael eu derbyn ar ddiwrnod eu llawdriniaeth. | |
| Gostyngiad yn nifer y gwelyau i gleifion preswyl | Nid oes gwelyau cleifion mewnol ar gyfer orthopedeg yn y Bwrdd Iechyd. | Dangosydd disgrifydd |
| Defnyddio gwelyau | Nid oes gwelyau cleifion mewnol ar gyfer orthopedeg yn y Bwrdd Iechyd. | - |
| **A yw capasiti theatrau llawdriniaeth yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol?** | | |
| Defnyddio theatrau | Mae perfformiad yn amrywio rhwng 70 a 100 y cant ar draws y ddau safle llawdriniaeth, o gymharu â tharged 95 y cant Llywodraeth Cymru. | |
| Llawdriniaethau a ganslwyd | Roedd cyfradd y llawdriniaethau a ganslwyd gan y Bwrdd Iechyd yn 2.5 y cant o gymharu â tharged dau y cant Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn amrywio o un y cant yn Ysbyty Aberhonddu i chwech y cant yn Ysbyty Llandrindod. Nid oes unrhyw gymhariaeth ar gael. | |
| **A yw hyd arhosiad cleifion mor fyr â phosibl?** | | |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer derbyniadau orthopedeg dewisol | Mae pob claf orthopedig dewisol sy'n cael ei drin yn y Bwrdd Iechyd yn glaf allanol. Mae cyfartaledd hyd arhosiad ar gyfer trigolion Powys sy'n cael eu trin yn rhywle arall yn amrywio yn ôl darparwr gofal eilaidd. | |
| Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu llawdriniaeth gosod cymalau newydd gan ei ddarparwyr gofal eilaidd cyfagos. Mae cyfartaledd hyd arhosiad ar gyfer trigolion Powys sy'n cael eu trin yn rhywle arall yn amrywio yn ôl darparwr gofal eilaidd. | |

| **Gwasanaethau i gleifion preswyl** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cost fesul cyfnod claf preswyl | Cost gyfartalog cyfnod orthopedig dewisol i'r ysbyty yn y Bwrdd Iechyd yw'r isaf yng Nghymru (£451). | ● |
| Cost brosthetig fesul cyfnod claf preswyl | Oherwydd y math o weithgaredd orthopedig sy'n cael ei wneud yn y Bwrdd Iechyd, nid oes ganddo gostau yn gysylltiedig â phrosthetigau. | - |
| Cost fesul claf allanol | Cost claf allanol orthopedeg dewisol (£681) yw'r isaf yng Nghymru. | ● |
| Cost fesul diwrnod gwely claf preswyl | Cost diwrnod gwely claf preswyl dewisol (£451) yw'r isaf yng Nghymru. | ● |

| **Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau** | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| **A yw cleifion yn cael apwyntiad dilynol?** | | |
| Apwyntiadau dilynol | Cafodd pob claf apwyntiad dilynol gan y safleoedd darparu perthnasol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd. | ● |
| Trefnir apwyntiadau dilynol o fewn yr amserlenni a argymhellir | Cafodd pob claf apwyntiad dilynol o fewn chwe wythnos a thri mis yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd. | ● |
| **A yw cymhlethdodau niweidiol yn cael eu hosgoi a'r manteision gorau posibl yn deillio o lawdriniaethau?** | | |
| Heintiau mewn Safleoedd Llawfeddygol (SSIs) ar gyfer gosod cluniau a phengliniau newydd | Mae cyfradd SSIs yn amrywio yn ôl darparwr gofal eilaidd, gyda pherfformiad ar y cyfan yn uwch na tharged sero y cant Llywodraeth Cymru. | ● |
| Cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd | Mae cyfraddau aildderbyn yn amrywio yn ôl darparwr gofal eilaidd, gyda pherfformiad yn uwch ac yn is na thargedau Llywodraeth Cymru. | ● |

| Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau | | |
|---|---|---|
| **Dangosydd** | **Perfformiad y Bwrdd Iechyd** | **Statws y perfformiad** |
| Cyfradd marwolaethau ar gyfer cleifion orthopedig dewisol | Ni chafwyd unrhyw farwolaethau yn dilyn triniaeth orthopedig ddewisol yn y Bwrdd Iechyd, er bod cyfraddau marwolaethau yn dilyn llawdriniaeth orthopedig ddewisol yn amrywio ar draws y darparwyr gofal eilaidd gyda pherfformiad yn well ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. | |
| Cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau | Mae'r gyfradd ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau a phengliniau ymhlith trigolion Powys yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. | |
| Gwella symptomau | Dywedodd saith deg tri y cant o gleifion Powys fod eu symptomau wedi gwella'n rhannol neu'n sylweddol yn dilyn llawdriniaeth i osod pen-glin newydd. Dyma'r isaf ond un yng Nghymru. | |


# Rhan 1

# 1 Gwasanaethau sylfaenol a chymunedol

## Darpariaeth gofal sylfaenol

1.1 Rhwng 2010 a 2013, roedd y Bwrdd Iechyd yn un o ddau fwrdd iechyd yn unig ledled Cymru i gynyddu ei wariant gofal sylfaenol ar wasanaethau cyhyrysgerbydol yn gyson, sef cynnydd o 34.7 y cant (Arddangosyn 3). Yn 2013, roedd gwariant y Bwrdd Iechyd fesul pen o'r boblogaeth ar wasanaethau cyhyrysgerbydol gofal sylfaenol (£15.50) yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan. (Arddangosyn 3).

Arddangosyn 3: Gwariant cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol ar ofal sylfaenol rhwng 2010 a 2013




Ffynhonnell: Stats Cymru

1.2 Roedd cyfran cyfanswm yr arian cyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol yn un o'r isaf yng Nghymru yn 2010-11 (Arddangosyn 4). Ers hynny bu cynnydd sylweddol, ac erbyn 2012-13 roedd yr uchaf yng Nghymru, sef 17.1 y cant o gyfanswm y gwariant. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd Cymru gyfan o 11.2 y cant. Mae safle'r Bwrdd Iechyd yn awgrymu bod buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhyrysgerbydol wedi symud ei ffocws tuag at ofal sylfaenol yn hytrach na darpariaeth gofal eilaidd. Mae'n debyg bod ffocws y Bwrdd Iechyd ar ddychwelyd cleifion yn ôl i'r gymuned wedi dylanwadu ar hyn.

Arddangosyn 4: Cyfran cyllideb y rhaglen gyhyrysgerbydol a wariwyd ar ofal sylfaenol rhwng 2010-11 a 2012-13

| Bwrdd Iechyd | % cyllideb y rhaglen MSK a wariwyd ar ofal sylfaenol | | |
|---|---|---|---|
| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 |
| Abertawe Bro Morgannwg | 11.3 | 9.8 | 10.8 |
| Aneurin Bevan | 10.2 | 10.2 | 9.7 |
| Betsi Cadwaladr | 10.7 | 9.3 | 9.9 |
| Caerdydd a'r Fro | 11.9 | 10.6 | 12.0 |
| Cwm Taf | 16.0 | 15.1 | 15.4 |
| Hywel Dda | 9.3 | 9.0 | 10.3 |
| Addysgu Powys | 9.9 | 14.0 | 17.1 |
| **Cymru Gyfan** | **11.1** | **10.4** | **11.2** |

Ffynhonnell: Stats Cymru

1.3 Fel rhan o'n gwaith, aethom ati i adolygu lefel y mynediad uniongyrchol sydd gan feddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol, a allai atal atgyfeiriadau diangen i wasanaethau orthopedeg gofal eilaidd. Byddai gwasanaethau o'r fath yn cynnwys gwasanaethau poen cymunedol, rhaglenni hunanreoli, rhaglenni ffordd o fyw cymunedol, gwasanaethau ffisiotherapi cymunedol a gwasanaethau therapi ceiropractig. Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod ganddo nifer o wasanaethau ar gael sy'n caniatáu mynediad uniongyrchol gan feddygon teulu, er bod lle i ystyried yr opsiwn i ddatblygu meddyg teulu gyda diddordeb arbenigol a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil gwasanaethau ychwanegol (Arddangosyn 5).

Arddangosyn 5: Mynediad uniongyrchol meddygon teulu at wasanaethau sylfaenol a chymunedol

| | ABM | Aneurin Bevan | Betsi Cadwaladr | Caerdydd a'r Fro | Cwm Taf | Hywel Dda | Powys |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ffisiotherapi | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Ffisiotherapydd â rôl ychwanegol | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Gwasanaethau poen cymunedol | ✓ | | | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Meddyg teulu gyda diddordeb arbennig mewn cyflyrau/ anhwylderau orthopedig | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | |
| Gwasanaethau ychwanegol perthnasol i gyflyrau/ anhwylderau orthopedig | | Yn rhannol | | | | | |
| Gwell mynediad at wasanaethau diagnostig | | ✓ | Yn rhannol | | | | ✓ |
| Therapi ceiropractig | | | | | | | |
| Rhaglenni cymunedol ar ffordd o fyw/ colli pwysau | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| Rhaglenni hunanreoli | ✓ | | | | | | |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

Sylwer: Ni ddarparwyd data gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

1.4 Fel rhan o'n Harolwg o Gleifion sy'n cael Llawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd, gofynnwyd i gleifion a oeddent wedi derbyn amrywiaeth o ymyriadau amgen cyn cael y llawdriniaeth. Yn gyffredinol derbyniodd cleifion o Bowys lai o ymyriadau amgen na chyfartaledd Cymru gyfan gyda dim un claf yn derbyn cyngor ar reoli pwysau na rhaglenni ymarfer corff, ac ychydig iawn yn derbyn cyngor ffisiotherapi (Arddangosyn 6).

Arddangosyn 6: Canran y cleifion a dderbyniodd ymyriad amgen cyn cael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd


| | Powys | **Cyfartaledd Cymru gyfan** |
|---|---|---|
| Canran y cleifion a gafodd ymyriad lleddfu poen cyn y llawdriniaeth | 66.7 | **74.9** |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor neu driniaeth ffisiotherapi cyn y llawdriniaeth | 6.7 | **26.1** |
| Canran y cleifion a gafodd raglen ymarfer corff cyn y llawdriniaeth | - | **23.4** |
| Canran y cleifion a gafodd gyngor ar reoli pwysau cyn y llawdriniaeth | - | **9.1** |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Atgyfeiriadau gan feddygon teulu

1.5 Er gwaethaf cynnydd bach yng nghyfradd yr atgyfeiriadau ers 2012-13, y Bwrdd Iechyd sydd â'r gyfradd isaf o atgyfeiriadau gan feddygon teulu i gael triniaeth orthopedeg fesul 100,000 o'r boblogaeth yng Nghymru (Arddangosyn 7). Fodd bynnag, mae cyfran y preswylwyr 65 oed a throsodd ymysg yr uchaf yng Nghymru. Yn nodweddiadol, y grŵp oedran hwn sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau orthopedeg; fodd bynnag, byddai'r gyfradd isel o atgyfeiriadau ym Mhowys yn awgrymu nad dyma'r achos.


Arddangosyn 7: Atgyfeiriadau gan feddygon teulu fesul 100,000 o’r boblogaeth 2012-2014




Ffynhonnell: Stats Cymru

1.6 Mae nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu at wasanaethau orthopedeg wedi amrywio dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gyda chyfartaledd o 222 o atgyfeiriadau gan feddygon teulu’n cael eu derbyn bob mis calendr (Arddangosyn 8). Mae’r gyfradd atgyfeirio i weld yn gostwng yn ystod y gaeaf, a allai adlewyrchu’r tywydd gwael a darodd Powys yn ystod gaeafau 2012 a 2013 a’r anawsterau cysylltiedig a allai fod wedi wynebu cleifion wrth ddefnyddio gwasanaethau meddygon teulu. Adroddodd y Bwrdd Iechyd fod ganddo fecanweithiau ar gyfer monitro patrymau atgyfeirio meddygon teulu ar lefel meddygon teulu, practis a lleoliad, sy’n cael ei gydnabod yn arfer da.

Arddangosyn 8: Nifer yr atgyfeiriadau gan feddygon teulu a dderbyniwyd rhwng Ebrill 2012 a Mehefin 2014




Ffynhonnell: Stats Cymru

## Gwasanaethau asesu a thriniaeth cyhyrysgerbydol cymunedol

1.7 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru gysyniad CMATS yn 2012. Amcan CMATS yw darparu man cyswllt cyntaf ar gyfer atgyfeiriadau gan feddygon teulu ar gyfer asesu a thrin poen a chyflyrau cyhyrysgerbydol er mwyn sicrhau mai'r atgyfeiriadau cywir i wasanaethau orthopedeg sy'n cyrraedd gofal eilaidd. Cyflwynodd y Bwrdd Iechyd CMATS yn 2011 yn yr ardal ganol, ac yn 2012 yn y gogledd a'r de.

1.8 Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ganllawiau clir ar sut y dylai CMATS weithredu. Mae cydymffurfiaeth leol â rhai o egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, yn amrywiol. (Arddangosyn 9).

Arddangosyn 9: Cydymffurfiaeth ag egwyddorion allweddol canllawiau Llywodraeth Cymru ar CMATS


| Egwyddor | Cydymffurfiaeth y bwrdd iechyd hwn | Nifer y byrddau iechyd ledled Cymru sy'n cydymffurfio |
|---|---|---|
| Clinigau sy'n cael eu cynnal mewn cyfuniad o ganolfannau lleol a gofal eilaidd | ✓ | Pob un ac eithrio Aneurin Bevan a Chwm Taf |
| Bydd pob atgyfeiriad cyhyrysgerbydol (ac eithrio eithriadau penodol) yn mynd i'r CMATS | × | Tri (Abertawe Bro Morgannwg, Betsi Cadwaladr a Chwm Taf) |
| Mae gan staff fynediad uniongyrchol at wasanaethau diagnosteg | × | Pob un ac eithrio Powys |
| **Mae'r gwasanaeth yn cynnwys:** | | |
| Ffisiotherapyddion ymarfer uwch | ✓ | Pob un |
| Podiatryddion ymarfer uwch | ✓ | Pob un ac eithrio Abertawe Bro Morgannwg a Chaerdydd a'r Fro |
| Meddygon teulu â gwybodaeth, sgiliau a diddordeb mewn cyflyrau/problemau cyhyrysgerbydol | × (er bod perthynas waith gref gydag ymgynghorwyr orthopedeg sy'n ymweld) | Pedwar (Abertawe Bro Morgannwg, Aneurin Bevan, Betsi Cadwaladr a Chaerdydd a'r Fro) |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.9 Mae cyfanswm y lefel staffio ar gyfer y CMATS yn y Bwrdd Iechyd yn cymharu'n ffafriol â'r rhan fwyaf o dimau eraill yng Nghymru. (Arddangosyn 10). Mae CMATS y Bwrdd Iechyd yn borth i bob atgyfeiriad yn ne Powys yn unig, felly ni fydd o dan gymaint o bwysau â gwasanaethau â lefelau staffio tebyg sy'n gweithredu fel porth, fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg. Fodd bynnag, o ystyried dosbarthiad daearyddol y Bwrdd Iechyd, mae'r staff wedi eu lleoli ar draws y gwahanol leoliadau ac mae'n debygol bod amrywiaethau mewn lefelau staffio fesul 1,000 atgyfeiriad ar lefel leol. Mae gwybodaeth staffio lleol yn dangos mai dim ond adnoddau podiatreg sydd ar gael yn yr ardal ganol, ac er bod cyfanswm y lefel staffio fesul 1,000 atgyfeiriad yn gadarnhaol, mae'r lefel gyfwerth ag amser llawn (WTE) yn isel iawn gyda chyfanswm lefelau staffio yn ardal y de, er enghraifft,

yn ddim mwy na 0.1 WTE. Mae hyn yn gwneud y CMATS yn agored i niwed ar draws Powys gan eu bod yn cael eu staffio'n bennaf gan un neu ddau aelod staff ym mhob lleoliad fel cyfrifoldeb ychwanegol i'w prif swyddogaeth. Pe byddai'r rhain yn absennol o'r gwaith, ni fyddai'r CMATS yn gweithio.

Arddangosyn 10: Lefelau staffio CMATS




Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

1.10 Un o egwyddorion CMATS yw asesu, gwneud diagnosis a thrin cleifion lle bo hynny'n berthnasol i'r arbenigwyr o fewn CMATS a lle y tybir ei bod yn bosibl y gall y claf gael ei weld a'i drin mewn uchafswm o ddau ymweliad ('asesiadau wyneb yn wyneb') Dylai'r cleifion hynny sydd angen triniaeth sy'n fwy dwys gael eu hatgyfeirio i wasanaethau mwy priodol ar y pwynt atgyfeirio. Ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i adrodd ar ganran y cleifion a dderbyniodd asesiad wyneb-yn-wyneb. Ar draws lleoliadau'r Bwrdd Iechyd, mae amseroedd aros i weld y CMATS am asesiad wyneb yn wyneb yn cael eu cynnwys yn y llwybr atgyfeirio a thriniaeth. Mae hyn yn mynd yn erbyn canllawiau Llywodraeth Cymru. Dywed y Bwrdd Iechyd mai pedair wythnos yw'r amser aros cyfartalog am asesiad CMAT wyneb yn wyneb. Mae hyn ymhell o fewn targed Llywodraeth Cymru, sef wyth wythnos.

# Rhan 2

## 2 Cleifion allanol a gwasanaethau diagnostig

### Gwasanaethau i gleifion allanol

2.1 Er mwyn cyrraedd targed Llywodraeth Cymru o drin 95 y cant o gleifion o fewn 26 wythnos i'w hatgyfeirio, dylai byrddau iechyd fod yn gweithio ar sail targed mewnol o rhwng 12 a 14 wythnos ar gyfer apwyntiad cyntaf cleifion allanol. I gleifion sy'n cael eu gweld yn ysbytai Powys, mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio i gyrraedd targed mewnol o 14 wythnos ar gyfer apwyntiad cyntaf ar hyn o bryd. Roedd canran y bobl a fu'n disgwyl dros 26 wythnos am eu hapwyntiad claf allanol cyntaf yn y Bwrdd Iechyd yn sero am gyfnod hir, ond ers mis Ionawr 2013, mae nifer fach o gleifion wedi bod yn aros mwy na 26 wythnos. (Arddangosyn 11). Ers mis Awst 2014, nid oes unrhyw glaf wedi aros mwy na 26 wythnos.


2.2 Bydd llawer o gleifion Powys yn derbyn eu hapwyntiad claf allanol cyntaf yn un o'r ysbytai cyffredinol dosbarth yn y byrddau iechyd cyfagos neu yn un o Ymddiriedolaethau Lloegr. Nid yw'r wybodaeth gennym ynghylch nifer y cleifion sy'n aros mwy na 18 wythnos yn Lloegr[2]. Mae canran y cleifion sy'n aros mwy na 26 wythnos mewn byrddau iechyd sy'n darparu mwyafrif y gwasanaethau orthopedeg i boblogaeth Powys yn amrywiol, fod bynnag, gyda'r canran uchaf sy'n disgwyl dros 26 wythnos [3] ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda (Arddangosyn 11).

---

[2] 18 wythnos yw targed GIG Lloegr ar gyfer y llwybr o atgyfeirio hyd at driniaeth.

[3] Mae amseroedd aros yn ymwneud â phob claf sy'n cael ei drin yn y byrddau iechyd hyn ac nid dim ond trigolion Powys.


Arddangosyn 11: Canran y cleifion sy'n aros dros 26 wythnos am apwyntiad claf allanol cyntaf




Ffynhonnell: Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru

2.3 Mae'r gallu i fodloni gofynion cleifion allanol yn dibynnu ar lefelau staffio meddygol byrddau iechyd. O safbwynt capasiti meddygon ymgynghorol, mae hefyd yn bwysig ystyried a oes cydbwysedd priodol ym mhob cynllun swydd unigol rhwng sesiynau gofal clinigol uniongyrchol cleifion allanol a theatrau. Mae nifer y meddygon ymgynghorol fesul 1,000 atgyfeiriad a nifer y sesiynau meddygon ymgynghorol sy'n benodol ar gyfer gweithgaredd cleifion allanol yn amrywio'n fawr ar draws Cymru. (Arddangosyn 12). Gan nad yw'r Bwrdd Iechyd yn cyflogi meddygon ymgynghorol yn uniongyrchol, nid oes sefyllfa cymharol ar gyfer Powys.

Arddangosyn 12: Staffio meddygon ymgynghorol a sesiynau cleifion allanol fesul 1,000 o atgyfeiriadau ar gyfer 2013-14




Ffynhonnell: Stats Cymru ac Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru

2.4 Unwaith mae sesiwn i gleifion allanol wedi'i chynllunio, mae'n bwysig cynnal y sesiynau hyn gan fod canslo clinig yn creu pwysau ychwanegol o fewn y system gan fod rhaid trin cleifion o fewn 26 wythnos o hyd. Dywedodd y Bwrdd Iechyd wrthym mai tua 15 y cant oedd cyfradd y clinigau cleifion allanol a ganslwyd ar gyfer 2012-13. Roedd y gyfradd hon yn amrywio rhwng safleoedd clinigau, gyda'r isaf tua naw y cant yn Ysbyty Aberhonddu. Nid yw llawer o fyrddau iechyd yn gallu cyflwyno'r data hwn, felly nid oes cymhariaeth ar gael.


2.5 Mae clinigau'n cynnwys cymysgedd o apwyntiadau newydd a rhai dilynol ar sail galw am y gwasanaeth. Mae'n bosibl y bydd angen apwyntiad dilynol ar rai cleifion cyn y gall gweithwyr proffesiynol wneud penderfyniad clinigol, ond i gleifion eraill, mae un apwyntiad claf allanol yn ddigon. Nid oes angen i rai cleifion sydd angen apwyntiadau dilynol gael eu gweld gan feddyg neu mewn ysbyty o reidrwydd. Felly, dim ond os oes angen i gleifion ddychwelyd y dylid gofyn iddynt wneud hynny, gan sicrhau eu bod yn mynd i'r lleoliad priodol. Bydd hyn yn helpu i osgoi apwyntiadau dilynol diangen, a all ddisodli cleifion sydd angen apwyntiadau cyntaf ar frys.

2.6 Ar gyfer y cyfnod 2013-14, roedd y gymhareb o apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd yn y Bwrdd Iechyd yn gymharol isel, sef 0.7 apwyntiad dilynol i bob apwyntiad newydd. Roedd hyn ymhell o fewn targed blaenorol Llywodraeth Cymru (1.9) ac mae'n arfer da; fodd bynnag, gall hyn hefyd adlewyrchu arferion clinigol lle mae rhai apwyntiadau dilynol yn cael eu gweld y tu allan i'r Bwrdd Iechyd, h.y. ar safle'r prif ddarparwr gofal eilaidd, ac felly ni fyddai'r gweithgaredd dilynol yn cael ei gofnodi fel gweithgaredd Powys. Mewn cyferbyniad, gall rhai cleifion dderbyn eu hapwyntiad dilynol ym Mhowys, wedi iddynt dderbyn eu triniaeth gychwynnol y tu allan i'r Bwrdd Iechyd ond caiff y rhain eu cyfrif fel apwyntiadau newydd. Mae'r gymhareb o apwyntiadau dilynol i apwyntiadau newydd ym mhrif ddarparwyr byrddau iechyd Cymru yn amrywiol, gyda'r gymhareb ddilynol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan (2.2 apwyntiad dilynol i bob apwyntiad newydd) yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru. Roedd cymarebau dilynol ym myrddau iechyd Abertawe Bro Morgannwg (1.7 i 1) a Phrifysgol Hywel Dda (1.6 i 1) yn is na tharged Llywodraeth Cymru.

2.7 Gall newidiadau mewn darpariaeth gwasanaethau i gleifion allanol helpu i leihau nifer ymweliadau cleifion â'r ysbyty. Gallai hyn gynnwys clinigau poeth, neu glinigau rhithwir, sy'n defnyddio technoleg fodern i gynnal ymgynghoriadau meddygol i gleifion. Yn ein harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, roedd 14 o bob 15 claf (93 y cant) o Bowys yn teimlo bod y darparwr iechyd eilaidd perthnasol wedi ceisio cydgysylltu'r nifer o ymweliadau yr oedd angen iddynt eu gwneud. Hwn oedd un o'r ymatebion mwyaf cadarnhaol yng Nghymru, sydd efallai'n adlewyrchu'r pellter mae'n rhaid i gleifion ei deithio i dderbyn darpariaeth gofal eilaidd ac felly'r ffocws cynyddol ar wneud yn siŵr nad yw cleifion yn teithio yn ddianghenraid.

2.8 Gall cyfradd y cleifion na fynychodd apwyntiadau a'r gyfradd a ganslodd apwyntiadau ddangos a yw apwyntiadau yn briodol. Y gyfradd cleifion na fynychodd apwyntiadau ar gyfer apwyntiadau newydd a rhai dilynol yn y Bwrdd Iechyd yw'r rhai isaf yng Nghymru, sef 2.0 y cant ar gyfer y naill a 3.8 ar gyfer y llall. Mae'r perfformiad o fewn targed Llywodraeth Cymru, sef pump y cant ar gyfer apwyntiadau newydd a saith y cant ar gyfer apwyntiadau dilynol. (Arddangosyn 13). Yn yr Arolwg o'r Bwrdd Iechyd, nododd y Bwrdd Iechyd fod cyfraddau'r apwyntiadau newydd a'r apwyntiadau dilynol a ganslwyd gan gleifion allanol yn uchel, sef 12.5 y cant ar gyfer y naill a 15.7 y cant ar gyfer y llall. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo apwyntiadau, felly nid oes cymhariaeth ar gael.


Arddangosyn 13: Cyfraddau cleifion allanol na fynychodd apwyntiadau newydd ac apwyntiadau dilynol 2013-14




Ffynhonnell: Stats Cymru

2.9 Drwy ddefnyddio gwybodaeth ariannol a gyflwynir gan y Bwrdd Iechyd i Lywodraeth Cymru bob blwyddyn, nodwyd bod cost mynychu fel claf allanol orthopedeg yn £89.86 yn y Bwrdd Iechyd, sef yr isaf ond un yng Nghymru yn 2011-12 (Arddangosyn 14), ond ei fod wedi cynyddu 13 y cant ers y flwyddyn flaenorol. Bydd lefel y gweithgarwch yn yr adrannau cleifion allanol yn effeithio ar gost derbyn cleifion allanol, er y bydd costau eraill sy'n gysylltiedig â staff a chyfarpar yn ffactorau pwysig hefyd.

Arddangosyn 14: Cost derbyn cleifion orthopedig allanol yn 2010-11 a 2011-12





Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

## Gwasanaethau ffisiotherapi

2.10 Yn gyffredinol, mae cleifion sydd angen ffisiotherapi i drin problemau cyhyrysgerbydol yn cael eu gweld yn gynt yn y Bwrdd Iechyd na mewn rhannau eraill o Gymru, ac mae canran o ryw 94 y cant o gleifion yn aros am lai nag wyth wythnos ar gyfartaledd o gymharu â pherfformiad Cymru gyfan, sef 86 y cant rhwng Ionawr 2014 a Chwefror 2015 (Arddangosyn 15).

2.11 Yn ôl targed Llywodraeth Cymru, ni ddylai unrhyw glaf aros mwy nag 14 wythnos ar gyfer gwasanaethau therapi. Mae llai na 0.2 y cant o gleifion yn aros mwy na 14 wythnos yn y Bwrdd Iechyd (Arddangosyn 15) sy'n dangos arfer da yn erbyn cyfartaledd Cymru gyfan (2.1 y cant). Roedd amserau aros am ffisiotherapi wedi bod yn fwy problematig yn Ysbyty Aberhonddu gydag ychydig dan bedwar y cant o gleifion yn aros am fwy na 14 wythnos yn Awst 2013, er bod y rhain wedi gwella ers hynny.

Arddangosyn 15: Amseroedd aros ar gyfer ffisiotherapi (oedolion)





Ffynhonnell: Stats Cymru

2.12 Mae gwasanaethau ffisiotherapi cleifion allanol yn cael eu darparu yn llawer o ysbytai cymunedol y Bwrdd Iechyd, yn ogystal ag mewn nifer o feddygfeydd meddygon teulu. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyflwyno gwasanaeth hunangyfeirio yn ddiweddar, sy'n caniatáu i gleifion gysylltu â'r adran ffisiotherapi yn uniongyrchol. Mae hyn yn lleihau'r angen i gleifion gael eu gweld gan weithiwr iechyd proffesiynol arall cyn cael eu hatgyfeirio. Lle mae cynlluniau hunangyfeirio wedi cael eu sefydlu mewn byrddau iechyd eraill, mae rhai gwasanaethau ffisiotherapi yn cynnig rhif cyswllt hefyd i gael cyngor cyn gwneud atgyfeiriad. Mae hyn yn rhoi cyfle i gyfeirio cleifion at wasanaethau eraill mwy priodol ac yn lleihau rhywfaint ar aros diangen. Yn debyg i weddill Cymru, mae darpariaeth gwasanaethau ffisiotherapi yn parhau i fod yn wasanaeth pum diwrnod traddodiadol, ar y cyfan, yn ystod yr wythnos waith.

## Gwasanaethau radioleg

2.13 Bydd angen i gleifion â phroblemau cyhyrysgerbydol gael profion radiolegol gan amlaf. Mae mynediad amserol i'r holl brofion radioleg yn dilyn ceisiadau gan feddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn y Bwrdd Iechyd hwn wedi bod yn gyson well na chyfartaledd Cymru gyfan, er bod data'n dangos cyfnodau o oedi cynyddol i gleifion a atgyfeiriwyd i'r gwasanaeth gan eu meddyg teulu rhwng Awst 2013 a Chwefror 2014 (Arddangosyn 16). Roedd yr oedi'n ymwneud yn benodol ag Ystradgynlais a Llanfair ym Muallt. Ers mis Rhagfyr 2013, dim ond ar gyfer Ystradgynlais mae amseroedd aros ar gyfer profion radioleg meddygon teulu'n cael eu hadrodd.

Arddangosyn 16: Canran y cleifion sy'n aros dros wyth wythnos am brofion radioleg





Ffynhonnell: Stats Cymru


2.14 Ledled Cymru yn 2013-14, roedd 23 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddyg teulu a 39 y cant o'r holl geisiadau am brofion radioleg yn dilyn atgyfeiriadau gan feddygon ymgynghorol yn geisiadau am sganiau MRI. Gan nad oes gan Bowys ddarpariaeth MRI, nid ydym n gallu deall i ba raddau y mae meddygon teulu a meddygon ymgynghorol yn gofyn am sganiau MRI.

2.15 Mae'r cynnydd yn y galw, yn enwedig am sganiau MRI yn dilyn atgyfeiriad gan feddygon teulu, yn gallu rhoi pwysau ar adrannau radioleg byrddau iechyd. Ledled Cymru, mae amseroedd aros ar gyfer sganiau MRI wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, er bod perfformiad wedi gwella yn rhan olaf 2014. Ym mis Chwefror 2015, roedd cyfartaledd o 15 y cant o gleifion a gafodd atgyfeiriad gan feddyg teulu neu feddyg ymgynghorol wedi aros mwy nag wyth wythnos am eu profion MRI (Arddangosyn 17). Mae amseroedd aros ar gyfer y prif ddarparwyr byrddau iechyd yng Nghymru'n amrywio, gyda'r amseroedd aros hiraf ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar gyfer sganiau MRI gafodd atgyfeiriad gan feddygon teulu a meddygon ymgynghorol.

Arddangosyn 17: Canran y cleifion sy'n aros dros wyth wythnos am sgan MRI yn dilyn atgyfeiriad gan feddyg teulu



Arddangosyn 18: Canran y cleifion sy’n aros dros wyth wythnos am sgan MRI yn dilyn atgyfeiriad gan feddyg ymgynghorol




Ffynhonnell: Stats Cymru

# Rhan 3

## 3 Gwasanaethau i gleifion preswyl

### Aros a pharatoi i fynd i'r ysbyty


3.1 Ar ôl i'r clinigydd benderfynu mai ymyriad llawfeddygol yw'r dull mwyaf priodol o fynd i'r afael â phroblemau cyhyrysgerbydol, dylai'r Bwrdd Iechyd gynnwys enw'r claf ar y rhestr a threfnu dyddiad ar gyfer asesiad cyn y llawdriniaeth i sicrhau bod y claf yn iach yn glinigol. Mae trefniadau asesu cyn llawdriniaeth ar waith i gefnogi gweithgarwch orthopedeg cleifion allanol sy'n digwydd yn ardaloedd y canol a'r de.

3.2 Dylai asesu cyn llawdriniaeth ar gyfer trigolion Powys sy'n cael llawdriniaeth orthopedig yn un o'r prif ddarparwyr gofal eilaidd ddigwydd yn yr ysbyty cyffredinol dosbarth perthnasol. Yn ôl ein harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, roedd pob un o'r cleifion wedi cael asesiad cyn y llawdriniaeth cyn eu derbyn i'r ysbyty. Roedd un o bob pump o'r cleifion hyn wedi cael eu hasesu lai na thair wythnos cyn y llawdriniaeth, gyda'r perfformiad hwn yn gyson ar draws y gwahanol ysbytai cyffredinol dosbarth.

3.3 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae'n bwysig ystyried manteision y llawdriniaeth ac osgoi rhoi triniaethau sydd ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn ôl y gwaith ymchwil[4]. Ar gyfer y cyfnod 2012-13, nodwyd bod cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig yn isel ar draws Powys. (Arddangosyn 19).

[4] Mae'r triniaethau a adolygwyd yn cynnwys datgywasgu ar y meingefn, torri disg rhyngfertebrol, uno cymal arall y meingefn, dileu nam ar y meingefn, biopsi ar y meingefn, dadnerfogi cymal ffased meingefn fertebra ac archwilio'r meingefn.


Arddangosyn 19: Cyfradd y triniaethau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig fesul 100,000 o'r boblogaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.4 Wrth roi enw claf ar y rhestr, mae hefyd yn bwysig ystyried y posibilrwydd o'i drin fel claf allanol er mwyn osgoi ei gadw yn yr ysbyty yn ddiangen. Mae'r BADS wedi argymell nifer o driniaethau orthopedig sy'n addas ar gyfer cleifion allanol. Yn y gorffennol roedd y rhain yn rhan o fframwaith rheoli perfformiad Llywodraeth Cymru, gyda tharged o 80 y cant. Ar gyfer blwyddyn ariannol 2012-13, roedd pob triniaeth orthopedig a wnaed yn Ysbytai Aberhonddu a Llandrindod wedi cael eu cynnal fel cleifion allanol (Arddangosyn 20). Fodd bynnag, mae perfformiad mewn nifer o'r ysbytai cyffredinol dosbarth cyfagos lle byddai trigolion Powys yn derbyn triniaeth orthopedig, yn amrywiol. Mae canran y triniaethau orthopedeg a argymhellwyd ar gyfer cleifion allanol yn Ysbyty Nevill Hall yn is na tharged Llywodraeth Cymru.

Arddangosyn 20: Canran y triniaethau orthopedig a argymhellwyd gan BADS a gwblhawyd fel cleifion allanol 2012-13





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

Sylwer: Mae cyfleusterau ysbytai preifat a gwblhaodd waith ar ran y GIG wedi eu cynnwys.

3.5 Er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael y canlyniad gorau posibl yn sgil ymyriad llawfeddygol, mae byrddau iechyd wedi mabwysiadu'r rhaglen Adferiad Gwell Ar ôl Llawdriniaeth. Mae hyn yn cynnwys sefydlu 'ysgol y cymalau' i ddarparu sesiynau addysgiadol ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd. Mae cymorth yn cynnwys cyfle i gleifion ymarfer ymarferion a thechnegau ffisiotherapi fydd yn cyflymu adferiad ar ôl y llawdriniaeth. Cynhelir 'ysgol y cymalau' cyn derbyn claf i ysbyty, ac mae'r gwaith ymchwil yn dangos bod egwyddor 'ysgol y cymalau' yn helpu'r claf i wella yn gynt ar ôl llawdriniaeth a threulio llai o amser yn yr ysbyty. O blith prif ddarparwyr byrddau iechyd Cymru, dim ond ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg mae 'ysgol y cymalau' ar gael.

3.6 Mae canran y cleifion sy’n aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol wedi cynyddu ar draws Cymru ers 2012 (Arddangosyn 21). Ym mis Ionawr 2015 roedd 41 y cant o gleifion wedi aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn i’r ysbyty. Gallai’r oedi fod oherwydd diffyg capasiti mewn sesiynau theatr, ond gall amseroedd aros estynedig am brofion diagnostig, radioleg neu apwyntiadau cleifion allanol cyn derbyn i’r ysbyty ddylanwadu arnynt hefyd. Mae canran y cleifion sy’n aros mwy na 26 wythnos i gael eu derbyn i ysbytai Powys, fodd bynnag, yn gymharol isel gydag ychydig iawn o gleifion yn aros mwy na 26 wythnos erbyn Ionawr 2015. Bydd trigolion Powys sy’n derbyn triniaeth orthopedig fel cleifion mewnol yn un o’r prif ddarparwyr byrddau iechyd Cymreig cyfagos yn aros yn hirach, gyda’r ganran uchaf o gleifion sy’n aros dros 26 wythnos ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Arddangosyn 21: Canran y cleifion sy’n aros dros 26 wythnos i gael eu derbyn fel cleifion preswyl neu gleifion allanol rhwng mis Ebrill 2012 a mis Ionawr 2015





Ffynhonnell: Uned Gyflawni Llywodraeth Cymru

## Derbyniadau

3.7 Er mwyn osgoi aros dros nos yn ddiangen yn yr ysbyty a manteisio’n llawn ar nifer y gwelyau sydd ar gael, mae’n arfer da derbyn cleifion ar ddiwrnod eu llawdriniaeth. Targed Llywodraeth Cymru yw bod o leiaf 64 y cant o gleifion yn cael eu derbyn ar yr un diwrnod. Mae pob claf orthopedig sy’n cael ei drin ym Mhowys yn cael ei dderbyn fel claf allanol ac felly nid yw’r dangosydd hwn yn berthnasol. Serch hynny, mae’n bwysig nad yw trigolion Powys sy’n derbyn triniaeth orthopedig fel cleifion mewnol yn rhywle arall yn treulio nosweithiau diangen yn yr ysbyty. Yn gadarnhaol, mae perfformiad yn y prif ysbytai cyffredinol dosbarth yng Nghymru lle gallai trigolion Powys dderbyn triniaeth orthopedig fel cleifion mewnol yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru. (Arddangosyn 22).

Arddangosyn 22: Canran y cleifion orthopedig dewisol a dderbyniwyd ar ddiwrnod eu llawdriniaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.8 Mae'r holl weithgaredd orthopedig o fewn y Bwrdd Iechyd ar sail cleifion allanol drwy'r unedau cleifion allanol yn cael ei wneud yn ysbytai Llandrindod ac Aberhonddu. Felly nid oes capasiti penodol ar gyfer gwelyau orthopedeg. Ledled Cymru, roedd ychydig dros 900 o welyau ar gael ar gyfer gweithgaredd trawma ac orthopedig yn y flwyddyn ariannol 2013-2014, gyda chyfartaledd cyfradd defnyddio gwelyau yn 80 y cant, o'i gymharu â chyfradd defnyddio gwelyau optimaidd o 85 y cant. Mae hyn yn awgrymu bod yna gyfleoedd i gynyddu llif cleifion neu leihau nifer y gwelyau sydd ar gael ymhellach. Roedd ffigurau'n amrywio'n fawr rhwng byrddau iechyd a safleoedd gyda chyfraddau defnyddio gwelyau ar gyfer prif ddarparwyr byrddau iechyd Cymru'n amrywio rhwng 76 y cant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ac 84 y cant ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (Arddangosyn 23).

Arddangosyn 23: Nifer y gwelyau sydd ar gael a chyfraddau defnyddio gwelyau 2013-14

| | Gwelyau sydd ar gael | Cyfradd defnyddio gwelyau (%) |
|---|---|---|
| Aneurin Bevan | 192.7 | 76.3 |
| Ysbyty Nevill Hall | 75.2 | 76.1 |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 183.5 | 84.1 |
| Ysbyty Treforys | 111.5 | 82.5 |
| Hywel Dda | 109.6 | 82.3 |
| Ysbyty Bronglais | 13.9 | 92.6 |

Ffynhonnell: Stats Cymru

## Yn yr ysbyty

3.9 Mae theatrau llawdriniaeth yn rhan bwysig o arhosiad claf orthopedig dewisol mewn ysbyty, a gall oedi neu ganslo llawdriniaeth arwain at brofiad gwael i gleifion a defnydd aneffeithlon o adnoddau. Gall canslo llawdriniaeth ar ddiwrnod y llawdriniaeth arwain hefyd at danddefnyddio capasiti theatrau. Darparodd y Bwrdd Iechyd wybodaeth gynhwysfawr ar y defnydd o'i restrau theatr orthopedeg. Roedd y defnydd o theatrau dros gyfnod o dri mis rhwng Ionawr a Mawrth 2013 yn amrywio o 70 i 100 y cant o'r capasiti oedd ar gael ar gyfer llawdriniaeth dydd yn ysbytai Aberhonddu a Llandrindod. (Arddangosyn 24). Yn ystod yr un cyfnod, ni chafodd unrhyw restrau theatr eu canslo, sy'n arfer da. Targed Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio theatrau yw 95 y cant. Ni chawsom wybodaeth am berfformiad defnyddio theatrau gan bob bwrdd iechyd, felly nid oedd modd gwneud cymhariaeth ar draws Cymru gyfan.

Arddangosyn 24: Defnyddio theatrau

| | Ionawr 2013 | Chwefror 2013 | Mawrth 2013 |
|---|---|---|---|
| Ysbyty Aberhonddu | 70% | 92% | 100% |
| Ysbyty Llandrindod | 97% | 95% | 90% |

Ffynhonnell: Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru


3.10 Ar gyfer y cyfnod 2102-13 adroddodd y Bwrdd Iechyd mai 2.5 y cant oedd cyfradd y triniaethau orthopedig a ganslwyd, yn amrywio o un y cant yn Ysbyty Aberhonddu i chwech y cant yn Ysbyty Llandrindod. Nid oedd pob bwrdd iechyd yn gallu adrodd ar gyfraddau canslo orthopedeg, felly nid oes cymhariaeth lawn ar draws Cymru ar gael.

## Rhyddhau cleifion

3.11 Mae pob claf orthopedig dewisol sy'n cael ei drin yn y Bwrdd Iechyd yn glaf allanol. Hyd arhosiad cyfartalog claf orthopedig dewisol yng Nghymru yw 3.9 diwrnod, sydd o fewn targed pedwar diwrnod Llywodraeth Cymru. O blith prif ddarparwyr gwasanaethau orthopedeg i Bowys gan fyrddau iechyd Cymru, mae hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer claf orthopedig dewisol yn llai yn Ysbyty Bronglais (3.7 diwrnod) o gymharu ag Ysbyty Nevill Hall (4.6 diwrnod).

3.12 Yr hyd arhosiad cyfartalog yng Nghymru ar gyfer cleifion sy'n cael llawdriniaeth i osod clun newydd yw 6.1 diwrnod ac ar gyfer phen-glin newydd mae'n 5.5 diwrnod. Mae'r rhain o fewn targedau Llywodraeth Cymru ar gyfer y triniaethau hyn, sef 6.1 diwrnod am gluniau newydd a 6.5 diwrnod am bengliniau newydd. O blith prif ddarparwyr gwasanaethau orthopedeg byrddau iechyd Cymru, mae hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer y triniaethau hyn yn amrywiol, gyda'r hyd cyfartalog ar gyfer cluniau a phengliniau yn Ysbyty Nevill Hall yr uchaf ond dau yng Nghymru. (Arddangosyn 25).

Arddangosyn 25: Hyd arhosiad cyfartalog ar gyfer llawdriniaethau dewisol i osod clun a phen-glin newydd rhwng Ebrill 2012 a Hydref 2013





Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

3.13 £451 oedd cost gyfartalog cyfnod claf orthopedig dewisol yn yr ysbyty yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer 2012-13, oedd yn sylweddol llai na chyfartaledd Cymru gyfan, sef £4,239. Bydd hyd arhosiad yn dylanwadu ar gost cyfnod yn yr ysbyty, ond bydd costau eraill cysylltiedig â staff a chyfarpar yn ffactorau pwysig hefyd. Y gost gyfartalog yn y Bwrdd Iechyd yw'r isaf yng Nghymru ac mae'n adlewyrchu lefel a math y gweithgaredd sy'n digwydd o fewn y Bwrdd Iechyd. Un ffactor sy'n dylanwadu ar gost triniaeth yw'r gost sy'n gysylltiedig â phrosthesisau. Ni chafodd unrhyw gostau prosthetig eu nodi mewn perthynas â gweithgareddau orthopedig ym Mhowys.

3.14 Roedd costau diwrnod gwely claf dewisol ar gyfer 2012-13 yn £451 a chostau claf allanol orthopedig yn £681 yn yr un cyfnod. Mae'r ffigurau hyn yn sylweddol is na chyfartaleddau Cymru gyfan, a dyma'r isaf yng Nghymru. (Arddangosyn 26). Yn ystod y cyfnod, cofnodwyd bod un claf wedi aros dros nos yn yr ysbyty.

Arddangosyn 26: Cost gyfartalog fesul claf allanol orthopedig dewisol a diwrnod gwely claf preswyl 2012-13




Ffynhonnell: Ffurflenni costau Cymru

Rhan 4


# 4 Apwyntiadau dilynol a chanlyniadau

## Trefniadau dilynol

4.1 Ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty, dylai cleifion sydd wedi cael llawdriniaeth i osod clun neu ben-glin newydd gael apwyntiad dilynol rhwng chwe wythnos a thri mis ar ôl eu rhyddhau. Gan nad yw'r triniaethau hyn yn cael eu gwneud ym Mhowys, mae'r Bwrdd Iechyd yn ddibynnol ar y darparwyr gofal eilaidd cyfagos i sicrhau bod cleifion Powys sy'n cael y triniaethau hyn yn cael triniaeth ddilynol briodol. Dangosodd ein harolwg o gleifion fod pob un o gleifion Powys a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd wedi cael apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o gymharu â chyfartaledd o 89 y cant ar draws Cymru. Dangosodd ein harolwg hefyd fod yr holl gleifion wedi derbyn eu hapwyntiad dilynol o fewn yr amserlenni penodedig, o gymharu â 93 y cant ar draws Cymru.

4.2 O blith prif ddarparwyr gwasanaethau orthopedeg byrddau iechyd Cymru i drigolion Powys, roedd canran y cleifion a dderbyniodd apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau yn is ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. (Arddangosyn 27).

Arddangosyn 27: Canran y cleifion yn yr arolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd a gafodd apwyntiad dilynol ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

## Canlyniadau a phrofiad cleifion

4.3 I lawer o gleifion, gall llawdriniaeth fod yn brofiad cadarnhaol sy'n newid eu bywydau ac yn gwella eu hansawdd bywyd yn sylweddol. Ond gall pethau fynd o chwith ambell waith. Fel rhan o'n gwaith aethom ati i adolygu casgliad o ddangosyddion i ddeall i ba raddau y mae'r profiadau hyn yn niweidiol i gleifion yn y tymor byr a'r hirdymor.

4.4 Os yw claf yn dal haint mewn safle llawfeddygol mae'n bosibl y bydd yn rhaid iddo aros yn hirach yn yr ysbyty. Ar gyfer y cyfnod 2012-13, aethom ati i adolygu cyfradd yr heintiau mewn safleoedd llawfeddygol (SSI) ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd (Arddangosyn 28). Mae cyfradd yr heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer llawdriniaeth i osod cluniau a phengliniau newydd yn amrywio ar draws Cymru. O blith prif ddarparwyr byrddau iechyd Cymru, dim ond yn Ysbyty Bronglais ar gyfer gosod pengliniau newydd y mae targed Llywodraeth Cymru o sero y cant yn cael ei gyrraedd. (Arddangosyn 28).

Arddangosyn 28: Cyfraddau heintiau mewn safleoedd llawfeddygol ar gyfer arthrosgopi cluniau a phengliniau

| | Cyfradd SSI (cluniau) | Cyfradd SSI (pengliniau) |
|---|---|---|
| Ysbyty Bronglais | 1.3 | 0 |
| Ysbyty Treforys | 2.5 | 2.3 |
| Nevill Hall | 0.4 | 3.2 |
| **Cyfartaledd Cymru gyfan** | **1.5** | **1.8** |

Ffynhonnell: Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru

4.5 Ar gyfer yr un cyfnod, nodwyd hefyd bod cyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn dilyn llawdriniaeth ddewisol i osod clun a phen-glin newydd yn amrywio ar draws Cymru, a chyfraddau aildderbyn cleifion i'r ysbyty yn uwch ym myrddau iechyd prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac Aneurin Bevan. Roedd cyfraddau marwolaeth ar gyfer cleifion orthopedig yn yr ysbyty a hyd at 30 diwrnod ar ôl cael eu rhyddhau yn uwch yn y ddau fwrdd iechyd hyn hefyd. (Arddangosyn 29).
Ni fu farw unrhyw gleifion yn dilyn triniaethau orthopedig dewisol a wnaed yn ysbytai Powys.


Arddangosyn 29: Cyfraddau aildderbyn cleifion a chyfraddau marwolaeth ym maes llawdriniaeth orthopedig ddewisol

| Dangosydd | Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | Aneurin Bevan | Hywel Dda | **Cyfartaledd Cymru gyfan** |
|---|---|---|---|---|
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod clun newydd | 1.2 | 1.8 | 0.7 | **0.9** |
| Canran y cleifion a aildderbyniwyd o fewn 28 diwrnod o gael llawdriniaeth i osod pen-glin newydd | 0.1 | 0.1 | 0.2 | **0.1** |
| Marwolaethau yn yr ysbyty fesul 100 o dderbyniadau orthopedig dewisol | 0.09 | 0.10 | 0.02 | **0.06** |
| Marwolaethau o fewn 30 diwrnod o ryddhau cleifion orthopedig dewisol, fesul 100 o dderbyniadau orthopedig dewisol | 0.17 | 0.14 | 0.03 | **0.10** |

Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.6 Mae oes clun neu ben-glin artiffisial yn amrywio oherwydd nifer o ffactorau, ond maen nhw'n gallu para dros 20 mlynedd ar gyfartaledd. Fodd bynnag, wrth i oedran cyfartalog y boblogaeth gynyddu, mae'r tebygolrwydd o orfod cael llawdriniaeth i ail-wneud y cymal newydd yn cynyddu hefyd. Fodd bynnag, gall yr angen i ail-wneud llawdriniaethau ddangos nad oedd y llawdriniaeth wreiddiol i osod cymal newydd yn effeithiol. Mae'r gyfradd ar gyfer ail-wneud llawdriniaethau i osod cluniau a phengliniau newydd ym Mhowys yn is na chyfartaledd Cymru gyfan. (Arddangosyn 30).


Arddangosyn 30: Cyfraddau ail-wneud llawdriniaethau fesul 10,000 o'r boblogaeth 2012-13




Ffynhonnell: Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru

4.7 Fel rhan o'n harolwg o gleifion a gafodd lawdriniaeth i osod pen-glin newydd, gofynnwyd i gleifion a oedd eu llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau. Ar draws Cymru, dywedodd bron 80 y cant o gleifion fod y llawdriniaeth wedi gwella eu symptomau. O blith y rhain, nododd 61 y cant welliant sylweddol. (Arddangosyn 31). O blith prif ddarparwyr byrddau iechyd Cymru, roedd canran uwch o gleifion wedi nodi gwelliant rhannol neu sylweddol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda o gymharu â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Arddangosyn 31: Canran y cleifion a ddywedodd fod eu llawdriniaeth i osod pen-glin newydd wedi gwella eu symptomau’n rhannol neu’n sylweddol (fesul safle darparwr)




Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

4.8 Roedd y cleifion o Bowys a atebodd ein harolwg wedi cael triniaeth gosod pen-glin newydd mewn nifer o safleoedd darparwyr. Roedd nifer y cleifion a ddywedodd fod eu triniaeth gosod pen-glin newydd wedi gwella eu symptomau’n rhannol neu’n sylweddol yn amrywio gyda phrofiadau mwy cadarnhaol gan y rhai gafodd driniaeth yn Ysbyty Gobowen. (Arddangosyn 32).

Arddangosyn 32: Canran y cleifion a ddywedodd fod eu llawdriniaeth i osod pen-glin newydd wedi gwella eu symptomau'n rhannol neu'n sylweddol

| | Wedi gwella fy symptomau'n rhannol | Wedi gwella fy symptomau'n sylweddol | **Cyfanswm y cleifion** |
|---|---|---|---|
| Ysbyty Gobowen | 1 | 4 | **6** |
| Ysbyty Henffordd | 3 | 2 | **6** |
| Ysbyty Nevill Hall | - | - | **1** |
| Ysbyty Telford | - | - | **1** |
| Heb ei gofnodi | 1 | - | **1** |

Ffynhonnell: Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd

4.9 Gall arolygon bodlonrwydd cleifion ac adolygiadau o gwynion ddarparu sicrwydd i fyrddau iechyd o ansawdd eu gwasanaeth o safbwynt y claf. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynnal arolygon bodlonrwydd cleifion ar gyfer y rhai sy'n cael llawdriniaeth orthopedig yn ei ddau brif safle llawfeddygol; fodd bynnag, mae'n dibynnu ar ei brif gyrff darparu GIG i gynnal arolygon gyda chleifion sy'n cael triniaeth orthopedig mwy cymhleth. Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn gallu darparu gwybodaeth am y nifer o gwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â'i wasanaeth orthopedeg, na'r rhai sy'n cael eu darparu gan ei brif gyrff darparu GIG. Mae llawer o fyrddau iechyd eraill hefyd yn methu adrodd nifer y cwynion a gafwyd yn benodol yn ymwneud â gwasanaethau orthopedeg.

# Atodiad 1

## Ffynonellau data

Mae'r ffynonellau data a ddefnyddiwyd i lywio'r arolwg gorfodol o wasanaethau orthopedeg yn cynnwys:

- Arolwg o Fyrddau Iechyd Swyddfa Archwilio Cymru a ofynnodd am ddata amrywiol yn ymwneud ag:
  - Atgyfeiriadau gan feddygon teulu
  - CMATS
  - Cleifion allanol orthopedig
  - Gwasanaethau therapi
  - Gwasanaethau radioleg
  - Asesiad cyn y llawdriniaeth
  - Gwelyau orthopedeg
  - Theatrau llawdriniaeth
  - Staffio meddygol
  - Profiad cleifion
  - Gwybodaeth Ariannol
- Cronfa Ddata Cyfnodau Gofal Cleifion Cymru
- Stats Cymru (www.statscymru.cymru.gov.uk)
- Arsyllfa Iechyd y Cyhoedd
- Arolwg Swyddfa Archwilio Cymru o Gleifion a Gafodd Lawdriniaeth i Osod Pen-glin Newydd
- Ffurflenni costau Cymru

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru